# Cylchlythyr Wythnosol Ysgol Pencae *Weekly Newsletter*

22.4.25

Annwyl Riant / Gwarcheidwaid,

*Dear Parent / Guardian,*

Pasg Hapus i chi gyd, hyderaf eich bod wedi cael amser wrth eich boddau gyda'ch anwyliaid. Ymddiheuriadau am yr oedi yn danfon y cylchlythyr hwn ond cefais y pleser o fwynhau golygfeydd godidog Bannau Brycheiniog gyda disgyblion blwyddyn 4 dyddiau olaf tymor diwethaf!

*Happy Easter to you all, Pasg Hapus, and I hope that you had a wonderful time with your loved ones.*

*Apologies for the delay in sending this newsletter, I had the pleasure of enjoying the Brecon Beacons with year 4 pupils during the last week of term!*

## *CASGLIAD RAGS TO RICHES COLLECTION 29.4.25*

Bydd casgliad Rags to Riches yn yr ysgol 29.4.25.

Yn anffodus roedd problem gyda'r bagiau ond maen nhw'n derbyn casgliadau mewn unrhyw fag plastig.

*Rags to Riches Collection from the school 29.4.25. Unfortunately there was a problem with the bags, but they accept donations in any plastic bag.*

**Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr / *Annual Governors Report***

Atodaf adroddiad blynyddol y Llywodraethwyr er gwybodaeth i chi. Pe bai chi eisiau trafod unrhyw elfen o'r adroddiad hwn, bydd Mr Tiplady (Cadeirydd y Llywodraethwyr) a finnau ar gael **ar Teams am 5yh, Nos Iau Mai y 1af** i drafod â chi.

Adroddiad y Llywodraethwyr 2023-24

*I attach the Governors annual report. If you would like to discuss any element on this report, myself and Mr Tiplady (Chair of Governors) will be **on Teams at 5pm on Thursday, May 1st** to answer any questions.*

*Governors Report 2023-24*

**Dolen Teams Link**

**Blwyddyn 4, Maes y Fron / Call of the Wild**

Cafodd disgyblion blwyddyn 4 amser wrth eu boddau yng nghanolfan Maes y Fron. Roedd eu tridiau nhw ym Mannau Brycheiniog yn llawn dop o gerdded mynydd Cribarth, crwydro coedwig, dringo craig a cherdded ceunant, heb sôn am y gweithgareddau gwaith tîm, yr amseroedd chwarae ar y cae (!) ac yn y parc a gwneud ffrindiau gyda'r holl ddefaid ac wyn a oedd yn prancio yn y caeau gyda nhw!

Braint oedd gweld eu brwdfrydedd, eu mwynhad a'u gofal arbennig o'i gilydd. Cefais i, Mrs Le Bon a Mr Morgan amser wrth ein boddau yn eu cwmni!

*Year 4 pupils had an excellent time at Call of the Wild. Their three days in the Brecon Beacons allowed them to walk the Cribarth mountain, explore the forest, abseil a rock and gorge walk, along with various team building activities, playtime on a field (!) and making friends with the locals - sheep and their lambs!*

*It was a privilege to observe their enthusiasm, their enjoyment and the way they supported each other. I, along with Mrs Le Bon and Mr Morgan thoroughly enjoyed their company.*



**Blwyddyn 1&2 - Ymweliad Bae Caerdydd / Cardiff Bay visit**

Cafodd disgyblion blwyddyn 1 a 2 ddiwrnod wrth eu boddau yn archwilio Bae Caerdydd. Fe fwynheuon nhw arsylwi'r adeiladau, mynd ar daith ar gwch a chrwydro'r morglawdd cyn mwynhau yn y parc!

*Years 1 and 2 had an excellent day exploring Cardiff Bay. They enjoyed observing the buildings, going on a boat ride, walking the barrage and enjoying the park!*

**Blwyddyn 1 - Casgliad er budd WaterAid Collection**

Llongyfarchiadau i flwyddyn 2 sydd wedi bod yn cwblhau her i gasglu arian ar gyfer elusen Wateraid. Yn dilyn dysgu am bwysigrwydd dŵr yn ein bywydau a deall bod rhai pobl yn byw gyda phrinder dŵr glân, penderfynodd y disgyblion i godi arian trwy wneud her cerdded noddedig. Yn ddyddiol, roedden nhw yn cerdded rownd a rownd ein hiard ni. Maen nhw wedi llwyddo i gasglu £255 - am wych! Dyma'r ddolen pe bai chi eisiau eu cefnogi!

*Congratulations to year 2 who have completed a sponsored activity in aid of WaterAid. Following their work on water and the importance of water in our lives, they learnt about communities that don't have clean water. They then decided to arrange a sponsored walk where they walked around our yard to collect money towards Wateraid. So far, they've collected £255 - amazing achievement. Here is a link if you wish to support them.*

**Diolch CRhA / PTA**

Diolch i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am drefnu digwyddiad Bonedi Pasg i'r disgyblion. Roedd bonedi gwych i'w gweld a braf oedd cael cyfle i'r ysgol gyfan arsylwi'r gwaith wrth i ni gael pared bonedi ar yr iard. Dyma enillwyr eleni:

*Diolch to the PTA for arranging an Easter Bonnet activity for the children. We were amazed with the bonnets and it was great to get the whole school on the yard to enjoy the parade! Here are the winners:*



**Eisteddfod Celf a Chrefft**

***Arts And Crafts Eisteddfod***

Os yw eich plentyn yn mwynhau celf a chrefft beth am gystadlu yn yr Eisteddfod Celf a Chrefft. Mae llwyth o gystadlaethau gan yr eisteddfod sydd yn dathlu doniau creadigol ein plant. Gallan nhw wneud darn o gelf 2D neu 3D, cymryd rhan mewn cystadleuaeth ffotograffiaeth neu decstilau, neu mae hyd yn oed cyfle i gystadlu mewn cystadlaethau digidol megis creu gwefan neu brosiect animeiddio. Ewch AmdanI!

Mae'r holl gystadlaethau i'w ffeindio yn y rhestr testunau ac mae'r rheolau wedi eu nodi yn glir, tudalen 45 - 59. Nodwch yn glir ar gefn y darn gwaith rif y gystadleuaeth.

Bydd angen dod a'r gwaith celf i'r ysgol, wedi'i labelu'n glir, erbyn: **28.4.25.**

*If your child enjoys Arts and Craft, why not compete in the Arts and Crafts Eisteddfod. There are various competitions to choose from - they could create a 2D or 3D piece of art, take part in the photography or textiles competition or they can even compete in the digital competitions, for example creating a website or an animation project. Go for it!*

*All competitions and rules can be found in the Eisteddfod Syllabus -please note that there is a theme to most competitions. You will find the information on Pages 45 - 59.*

*The finished work needs to be brought into school, clearly labelled by:* ***28.4.25***

## *Clybiau Wythnosol / Weekly Clubs*

| | **Dydd Llun**<br>***Monday*** | **Dydd Iau**<br>***Thursday*** |
|---|---|---|
| ***3.30 - 4.30*** | ***Bl4- 6***<br>Clwb Pêl-rwyd<br>Netball club | ***Code Club***<br>Aelodau yn unig / members only<br><br>***Bl4- 6***<br>Clwb Pêl-droed / Rygbi<br>Football / Rugby Club |

Mwynhewch y penwythnos / *Enjoy the weekend,*

Siwan Dafydd

| **Mis Ebrill**<br>**Sialens Siarter Iaith y Teulu**<br>***Language Charter Family Target*** | **Mis Ebrill**<br>**Proc i'r Cof Diogelwch ar y We**<br>***Internet Safety Tip*** | **Mis Ebrill**<br>**Hawliau Plant**<br>***Children's Rights*** |
|---|---|---|
| Mae cyfres newydd o Mabinogi-ogi ar Stwnsh - rhaglenni gwerth eu gwylio! Cip o chwedlau Cymru, caneuon cofiadwy a llawer o chwerthin!<br>*There's a new series of Mabinogi-ogi on Stwnsh (S4C). The programmes are worth watching! You will get a snapshot of Welsh legends, memorable songs and a lot of laughter!* | Mae defnydd pobl ifanc o 'emojis' yn amlwg iawn yn y cyfryngau ar hyn o bryd. Byddwch yn ymwybodol o'u hystyr ac yn wyliadwrus o'u defnydd.<br>*Young people's use of emojis is discussed heavily in the media at the moment. Be aware of their meaning and be vigilant of their use.* | Eich hawl i ddweud beth ddylai digwydd ac i rywun wrando arnoch.<br>*Your right to say what you think should happen and be listened to.* |

| **Cysylltiadau Defnyddiol / Helpful Links:** |
|---|
| **Swyddogion Diogelu yr Ysgol / Safeguarding Designated Teachers**: Siwan Dafydd ac Aled Thomas<br>**Llywodraethwr Diogelu / Safeguarding Governor:** Emma Simpkins<br>Gwybodaeth Diogelu / Safeguarding Information |
| Ffurflen Meddyginiaeth / Medicine Form |
| Ffurflen Gwyliau / *Holiday Form* |
| Gwaith cartref / Home Work bit.ly/gwaithcartrefPC |

**DYDDIADUR YR YSGOL / SCHOOL DIARY**

**Dyma ddyddiadau a bydd mwy o fanylion yn nes at yr amser**

| Here are key dates and more information will be shared nearer the time | |
|---|---|
| **Dyddiad / Date** | **Digwyddiad / Event** |
| **29.4.25** | Casgliad Dillad 'Rags to Riches' Clothes Collection |
| **02.05.25** | Bl6: Diwrnod Pontio - chwaraeon<br>Transition Day - sports |
| **14.05.25 2.50pm** | Gwasanaeth Dosbarth Blwyddyn 2<br>Year 2 Class Assembly |
| **16.5.25 7.30pm** | **CRhA / PTA**<br>Noson Bingo Connie Orff Bingo Night |
| **21.05.25 2.50pm** | Gwasanaeth Dosbarth Dosbarth Derbyn<br>Reception Class Assembly |
| **22.5.25** | Bl6: Gŵyl y Gelli / Hay Festival |
| **26.05.25 - 30.05.25** | Hanner Tymor / Half Term |
| **02.06.24 - 03.06.24** | **Bl3:** Pentre Ifan a Chastell Henllys<br>Pentre Ifan and Castell Henllys |
| **09.06.25 - 20.06.25** | **Bl3:** Gwersi Nofio<br>*Swimming Lessons* |
| **30.06.25** | **Bl6:** Diwrnod Pontio (heb staff Pencae)<br>Tranisition Day (without Pencae staff) |
| **03.07.25**<br>**1pm - 3.30pm** | Mabolgampau - NIAC, Cyncoed. Dewch i wylio a bydd angen casglu y disgyblion o Gyncoed.<br>*Sports Day - NIAC Cyncoed. Come and watch! You will have to pick the children up from Cyncoed.* |
| **18.07.25** | Diwrnod ola'r tymor / Last Day of term<br>**2.30pm:** Gwasanaeth Gadael Blwyddyn 6 Leavers Assembly |
| **21.07.25** | Diwrnod HMS / Inset Day |